

CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN/
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL MEETING

12 RHAGFYR/DECEMBER, 2017

2.00 pm

Eitem 11 - ADOLYGIAD 2018 O ETHOLAETHAU SENEDDOL

Cyflwyno er gwybodaeth – ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad uchod.

Item 11 - 2018 REVIEW OF PARLIAMENTARY CONSTITUENCIES

To submit for information – the Council's response to the above consultation.



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 0BL

Dr. Gwynne Jones
Prif Weithredwr / Chief Executive

**CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**
Swyddfa'r Sir
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW
Gofynnwch am - Please ask for: Huw Jones
Tel: (01248) 752108
E-Bost-E-mail: huwjones@anglesey.gov.uk

Ein Cyf - Our Ref. WGJ/JHJ/JJ
Eich Cyf - Your Ref

8 Rhagfyr, 2017 / 8 December, 2017

Annwyl Syr/Madam / Dear Sir/Madam,

**AROLWG 2018 O ETHOLAETHAU
SENEDDOL YNG NGHYMRU – CYNIGION
DIWYGIEDIG**

Diolch am y cyfle i gyflwyno sylwadau mewn perthynas â'r cynigion diwygiedig. Mae'r Cyngor eisoes wedi datgan ei wrthwynebiad i'r cynigion cychwynnol i newid etholaeth Ynys Môn ac o'r farn na ddylid newid ffiniau'r etholaeth i gynnwys rhan o etholaeth Arfon / Aberconwy yn y dyfodol.

Yn ei ymateb y llynedd i'r cynigion cychwynnol pwysleisiodd y Cyngor yn glir y dylid cadw ffiniau presennol etholaeth Ynys Môn. Hefyd pwysleisiwyd y dylid diogelu hunaniaeth unigryw'r Ynys a'i ffiniau gweinyddol naturiol a chyd nabod yn ogystal y cyd-destun hanesyddol o safbwyt cynrychiolaeth seneddol. Mae'r Cyngor eto o'r farn y byddai ymestyn ffiniau'r etholaeth yn gwanhau atebolwydd lleol a statws gweinyddol yr Ynys.

Yn wir, rhaid cwestiynu rhesymeg o greu etholaeth Ynys Môn a "Fangor" sy'n cynnwys ardal Bangor tuag at gyffiniau tref Conwy. Nid yw hon yn ardal weinyddol naturiol. Byddai

**2018 REVIEW OF PARLIAMENTARY
CONSTITUENCIES IN WALES – REVISED
PROPOSALS**

Thank you for the opportunity to present comments regarding the revised proposals. The Council has already stated its objection to the initial proposals to change the constituency of Ynys Môn and our view is that the constituency's boundaries should not be changed to include part of the Arfon / Aberconwy constituency in future.

In its response last year to the initial proposals, the Council clearly emphasised that the current boundaries of the Ynys Môn constituency should be retained. It also emphasised the importance of protecting the Island's unique identity and its natural administrative boundaries, and the importance of acknowledging the historical context with regard to parliamentary representation.

Indeed, we must question the logic of forming a constituency of Anglesey and "Bangor" which includes the area of Bangor towards the outskirts of the town of Conwy. This is not

hyn yn sicr o greu dryswch i etholwyr a hefyd pan fo sawl etholiad yn cael eu cynnal ar yr un diwrnod gan awdurdodau Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy.

Rhaid datgan unwaith yn rhagor nad yw cynigion y Comisiwn o safbwyt Ynys Môn yn gyson o safbwyt cynrychiolaeth seneddol mewn rhannau eraill penodol o'r Deyrnas Unedig sy'n etholaeth ar sail ynys. O dan y cynigion cychwynnol ar gyfer Lloegr, mae dwy o'r 501 etholaeth a ddyrennir i Loegr wedi'i neilltuo ar gyfer yr Ynys Wyth – mae Deddf 2011 yn nodi bod rhaid i Ynys Wyth gael dwy etholaeth (sydd ar hyn o bryd yn un etholaeth). Mae dwy etholaeth ynysoedd yn yr Alban hefyd wedi'u diogelu o dan y Ddeddf – Orkney a Shetland, Na h-Eileanan. Mae'r anghysondeb hwn yn fater o bryder i'r Cyngor ac ni ddylid gwahaniaethu.

Yn olaf, mae enw arfaethedig yr etholaeth yn bryder i'r Cyngor sef Ynys Môn a Fangor. Mae hyn eto yn creu dryswch a dylid glynw wrth y trefniadau presennol sef etholaeth Ynys Môn, er mwyn diogelu hunaniaeth naturiol yr etholaeth sydd â ffiniau naturiol iddo. Gofynnir i chi ail ystyried y cynigion ac mae'r Cyngor yn pwysu arnoch i gadw etholaeth Ynys Môn sydd â ffiniau naturiol iddi, a diogelu enw Ynys Môn.

a natural administrative area. This would certainly create confusion for constituents and also when several elections are held on the same day by the Ynys Môn, Gwynedd and Conwy authorities.

We must state once again that the Commission's proposals in respect of Ynys Môn are not consistent in terms of parliamentary representation in other specific parts of the UK that are island-based constituencies. Under the initial proposals for England, two of the 501 constituencies allocated for England have been apportioned to the Isle of Wight – the 2011 Act notes that the Isle of Wight must have two constituencies (which are currently a single constituency). Two constituencies of the Scottish Isles are also protected under the Act – Orkney and Shetland, Na h-Eileanan. This inconsistency is a matter of concern for the Council, and we should not be treated differently.

Finally, the proposed name of the constituency is a cause of concern for the Council, namely Anglesey and Bangor. This again creates confusion and the current arrangements should be adhered to, namely the constituency of Ynys Môn, in order to protect the natural identity of the constituency and its natural boundaries. We ask you to reconsider the proposals and the Council would press on you to retain the Ynys Môn constituency that has natural boundaries, and retain the name Ynys Môn.

Yr eiddoch yn gywir / Yours faithfully,



Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr / Chief Executive